monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**DECISION RECORDING LOG**

**DECISION DETERMINED ON: Dydd Mercher, 5 Medi 2018**

**DECSION WILL COME INTO EFFECT ON: Manually Type Call in Date**

*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**CABINET MEMBERS PRESENT:**

County Councillors P.A. Fox, R.J.W. Greenland, R.John, S.B. Jones, P. Jones, S. Jones, P. Jordan and P. Murphy

**OTHER ELECTED MEMBERS PRESENT:**

County Councillors

**OFFICERS PRESENT**

Matthew Phillips, Peter Davies, Paul Matthews, Will Mclean, Nicola Perry, Cath Fallon, Sue Hall, Mike Moran and Nikki Wellington

| Item Number | Title | Purpose, Consultation & Author | Declaration of Interests | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **3a** | CYNNIG O 30 AWR O OFAL PLANT YN RHAD AC AM DDIM | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant 30 awr am ddim o Ionawr 2019.<br><br>I gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant ym mhob rhan o Sir Fynwy ar yr un pryd.<br><br>Cytuno ar y newidiadau a awgrymwyd i'r strwythur staffio o fewn y tîm Blynyddoedd Cynnar mewn perthynas â'r cynnig gofal plant. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3b** | RHAGLEN BUDDSODDIAD ADFYWIO TARGEDIG LLYWODRAETH CYMRU 2018-21 | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo drafft terfynol cynllun adfywio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (20182021), yn benodol y cynigion adfywio ar gyfer De-ddwyrain Glannau Hafren tua £10 miliwn, yn dilyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, er mwyn hwyluso'r broses o gyflawni gwaith Rhaglen Buddsoddiad Adfywio Targedig Llywodraeth Cymru 2018-21.<br><br>Bod y Cabinet yn cytuno i gyflwyno cais am Gyllid Datblygu Prosiect (tua £147,000) i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynnig adfywio ehangach.<br><br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r gwariant cysylltiedig o fewn y cynllun ariannol tymor canolig presennol, gan ddefnyddio arian Adran 106 ac amser staff fel arian cyfatebol – 50% o'r angen am y cais am gyllid i ddatblygu'r prosiect. Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Gweithgarwch Datblygu'r Prosiect yn ôl y proffil gwariant (Atodiad B).<br><br>Rhoddir yr awdurdod hwnnw i alluogi swyddogion i ddatblygu cynigion Sir Fynwy ymhellach gyda'r bwriad o gyflwyno cynlluniau ychwanegol i'r Cabinet i'w |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hystyried ymhellach a'u hariannu ar yr adeg y maent yn barod |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3c** | CYFLAWNI RHAGORIAETH MEWN GWASANAETHAU PLANT : CYMORTH I'R TEULU O FEWN GWASANAETHAU STATUDOL PLANT /CYSWLLT | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Gohiriwyd yr eitem. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3d** | YMATEBION I'R YMARFER AR GYFER YR ADOLYGIAD O ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R CAMAU NESAF. | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Cyhoeddi'r cynnig fel yr ymgynghorwyd arno a chytuno i gyhoeddi hysbysiadau statudol yn ôl y gofyn:<br>*Cynnig i newid dynodiad y Ganolfan Adnoddau Anghenion Arbennig yn Ysgol Gynradd Deri View i letya plant ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig, Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu i gynnwys canolfan asesu hefyd.*<br>*Cynyddu gallu Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig Overmonnow o 20 i 24 a newid y math o ddarpariaeth a gynigir er mwyn darparu ar gyfer anghenion cymhleth gan gynnwys: Anawsterau Dysgu Difrifol, Anhwylder Sbectrwm Awtistig, Anhwylder Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, Anawsterau Corfforol a Meddygol.*<br>*Cynnig i sefydlu canolfannau cynhwysiant yn ein pedair ysgol uwchradd.*<br><br>Cyhoeddi'r cynigion gyda'r addasiad canlynol:<br>*Cynnig i newid y math o ddarpariaeth a gynigir yn y Ganolfan Adnoddau Anghenion Arbennig ar gyfer Trefynwy a Chil-y-coed er mwyn darparu ar gyfer gofynion cymhleth gan gynnwys Anawsterau Dysgu Difrifol, Anhwylder Sbectrwm Awtistig, Anhwylder Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog ac Anawsterau Corfforol a Meddygol.*<br>*Bwriad yr addasiad yw argymell bod Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog yn cael eu dileu o'r cynnig.*<br>*Cynyddu gallu Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig Pembroke o 20 i 24 a newid y math o ddarpariaeth a gynigir er mwyn darparu ar gyfer Anghenion Cymhleth gan gynnwys: Anawsterau Dysgu Difrifol, Anhwylder Sbectrwm Awtistig, Anhwylder Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, Anawsterau Corfforol a Meddygol.*<br>*Mae'r addasiad yn argymell y bydd y capasiti'n aros ar 20 o leoedd.*<br><br>I ail-lunio'r cynnig yn sylweddol ac ail-ymgynghori.<br>*Cynnig i sefydlu ysgol arbennig newydd a fydd yn darparu'r ystod lawn o ddarpariaeth ar safle Tŷ Mounton.*<br>*Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig yn ne'r Sir er mwyn darparu ar gyfer plant ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig, Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu i gynnwys canolfan asesu hefyd.*<br>*Y cynnig i sefydlu dwy uned Cyfeirio Disgyblion Cynradd Rhanbarthol, un yn y Gogledd ac un yn Ne'r sir.*<br><br>Rhoi'r gorau i'r cynnig hwn a chynnal y 'status quo'. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | *Cynnig i'r ysgol arbennig newydd reoli'r Canolfannau Adnoddau Anghenion Arbennig sydd wedi'u lleoli yn ein hysgolion lleol.*<br>*Y cynnig i sefydlu Unedau Cyfeirio Disgyblion Uwchradd, un yn y Gogledd ac un yn Ne'r sir.*<br><br>Cymeradwyo'r defnydd o £201,000 o arian Adran 106 i gynyddu capasiti'r Adnodd Anghenion Arbennig yn Ysgol Gynradd Overmonnow gan 4 lle. Mae hyn yn unol â chytundeb Adran 106. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3e** | RHAGLENNI CRONFA GYMDEITHASOL MENTER IEUENCTID - ESTYN YSBRYDOLI I GYFLAWNI (12A) AC YSBRYDOLI I WEITHIO (I2W) | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod Cabinet yn ystyried ac yn cymeradwyo'r cais am arian cyfatebol ychwanegol o arian wrth gefn y Gronfa Buddsoddi i Ailgynllunio ar gyfer 2018-19 ac Ystyriaeth Cyllideb Sylfaenol o 2019-20 i 2022-23 ar gyfer yr estyniad Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3f** | RHEOLI RHWYSTRAU YN Y BRIFFORDD - ADOLYGU'R POLISI | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod taliadau am drwyddedau ar gyfer arddangosiadau, byrddau, cadeiriau yn cael eu tynnu'n ôl ond bod ffioedd sy'n codi o ddiffyg cydymffurfio â'r cynllun trwyddedau (fel y manylir arnynt yn y polisi presennol) yn parhau.<br><br>Bod meini prawf ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y polisi er mwyn caniatáu i fusnesau feddiannu ardal fwy na 18 metr sgwâr lle gellir cyflawni hyn heb beryglu diogelwch neu achosi rhwystr annerbyniol ar y briffordd (ac ar ôl derbyn asesiad risg gan yr ymgeisydd).<br><br>Bod unrhyw gais gan fusnes i feddiannu ardal sy'n fwy na 18 metr sgwâr yn cael ei gymeradwyo gan Reolwr Priffyrdd y Sir neu'r Pennaeth Gwasanaeth mewn ymgynghoriad â'r aelod lleol a'r Aelod Cabinet dros Weithrediadau.<br><br>Bod y Pwyllgor hwn yn argymell i'r Cabinet y dylai'r cynllun trwyddedau ar gyfer safleoedd unigol fel y'i disgrifir o fewn y polisi presennol aros mewn lle. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3g** | CYNIGION SEILWAITH GWYRDD AR GYFER CIL-Y-COED | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Ceisio cymeradwyaeth i Gyngor Sir Fynwy i gynnal y contract cyflogaeth dros dro/cyfnod penodol ar gyfer Arweinydd Addysg Uwch yn rhaglen y Fargen Ddinesig am gyfnod o chwe mis o 1 Medi 2018. Bydd y contract ar natur drwy secondiad.<br><br>Rhoi gwybod i'r Cabinet am y rôl hon a cheisio cymeradwyaeth i gyflogi swydd sy'n cael ei hamcangyfrif (gyda 30% ar gostau) fel ar £29,172 y flwyddyn. Costau cyflogaeth yn cael eu had-dalu'n llawn gan Gyngor Dinas Caerdydd fel y corff sy'n atebol am bartneriaeth y Fargen Ddinesig. |
| **Additional Information:** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **3h** | BARGEN DDINESIG | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Ceisio cymeradwyaeth i Gyngor Sir Fynwy i gynnal y contract cyflogaeth dros dro/cyfnod penodol ar gyfer Arweinydd Addysg Uwch yn rhaglen y Fargen Ddinesig am gyfnod o chwe mis o 1 Medi 2018. Bydd y contract ar natur drwy secondiad.<br><br>Rhoi gwybod i'r Cabinet am y rôl hon a cheisio cymeradwyaeth i gyflogi swydd sy'n cael ei hamcangyfrif (gyda 30% ar gostau) fel ar £29,172 y flwyddyn. Costau cyflogaeth yn cael eu had-dalu'n llawn gan Gyngor Dinas Caerdydd fel y corff sy'n atebol am bartneriaeth y Fargen Ddinesig. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **3i** | GWEITHGOR CRONFA'R EGLWYS YNG NGHYMRU | As set out in the report | | RESOLVED:<br>Bod y grantiau'n cael eu dyfarnu yn unol â'r rhestr ceisiadau.<br><br>Datganodd y Cynghorydd Sirol P. Murphy fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnol, mewn perthynas â chais 4. |
| **Additional Information:** | | | | |